Abram (Abraham) a Sarai yn mynd i'r Aifft

Genesis 12: 10-20

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Genesis 12: 10-20 Abram a Sarai yn mynd i'r Aifft		
1	Roedd Abram yn byw yn y wlad roedd Duw wedi ei roi iddo ef a'i deulu. Ond roedd newyn difrifol yn y wlad. Doedd y cnydau ddim yn tyfu ac roedd pawb eisiau bwyd.		
2	"Fe fydd raid i ni fynd i'r Aifft i chwilio am fwyd," meddai Abram wrth Sarai ei wraig. "Ond, pan fydd pobl yr Aifft yn gweld mor hardd wyt ti fe fyddan nhw yn fy lladd i er mwyn dy gael di! Dywed wrthyn nhw mai fy chwaer i wyt ti."		
3	Aethon nhw ar daith hir drwy'r anialwch i wlad yr Aifft. Doedd Abram ddim yn trystio Duw i ofalu amdano. Roedd ei benderfyniad i ddweud celwydd yn lle trystio Duw yn un drwg iawn.		

4	Fe welodd yr Eifftiaid fod Sarai yn ddynes hardd iawn. Fe ddywedon nhw wrth y Pharo mor hardd oedd hi.	
5	Dwedodd Abram gelwydd! Dwedodd mai Sarai oedd ei chwaer. Felly roedd y Pharo yn creu y gallai briodi Sarai.	
6	Aeth Sarai i'w balas. Doedd neb yn gwybod ei bod hi'n wraig i Abram.	
7	Roedd y Pharo'n garedig iawn at Abram o achos Sarai. Rhoddodd ddefaid a gwartheg, asennod, caethweision a morynion, a chamelod iddo. Ond roedd Abram yn drist iawn am ei fod wedi colli ei wraig ac am ei fod wedi dweud celwydd.	
8	Gwelodd Duw beth oedd wedi digwydd. Penderfynodd Duw gosbi y Pharo. Dyma'r ARGLWYDD yn anfon afiechydon ofnadwy arno fe a phawb yn ei balas.	

9	Galwodd y Pharo am Abram, a dweud wrtho, “Pam rwyt ti wedi gwneud hyn i mi? Pam dweud ‘Fy chwaer i ydy hi’? Dyma hi, dy wraig, yn ôl i ti. Cymer hi a dos o ngolwg i!” Roedd dweud celwydd wedi achosi trafferth mawr i bawb.	
10	Rhoddodd y Pharo orchymyn i'w filwyr daflu Abram, a'i wraig a phopeth oedd ganddo, allan o'r wlad. Fe aethon nhw yn ôl i wlad Canaan.	
11	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	